Dechrau'n Deg
Flying Start

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Dechrau'n Deg – Atodiad

## Canllawiau Allgymorth

Medi 2014

ISBN digidol 978 1 4734 1940 7
© Hawlfraint y Goron 2014
WG22597

## Cynnwys


i. Ynghylch y Canllawiau hyn 1

1. Cyflwyniad 2

2. Y brif egwyddor 2

3. Amcanion y gwaith allgymorth 2

4. Cyllid 2

5. Monitro a gwerthuso 3

6. Y broses 3

7. Cydweithredu 4

8. Crynodeb 5

## i. Ynghylch y Canllawiau hyn

Dechrau'n Deg yw rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar. Mae wedi'i hanelu at deuluoedd sydd â phlant o dan bedair oed ac sy'n byw mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae elfennau craidd y rhaglen wedi'u seilio ar nifer o opsiynau y profwyd eu bod yn helpu i wella sefyllfa plant a'u teuluoedd. Yn eu plith mae:

- Gofal plant rhan amser o safon am ddim i blant dwy i dair oed;
- Gwasanaeth Ymweliadau Iechyd gwell;
- Mynediad at Gymorth Rhianta;
- Datblygiad Iaith Cynnar.

Dylid darllen y canllawiau hyn ochr yn ochr â chanllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch Dechrau'n Deg, gan gynnwys Canllawiau Strategol Dechrau'n Deg a chanllawiau penodol eraill sy'n ymwneud ag elfennau craidd y rhaglen. Mae'r canllawiau hynny ar gael yn:

http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/parenting/help/flyingstart/?lang=cy

Mae'r canllawiau hyn yn darparu cyfres o opsiynau y gall yr awdurdodau ddewis o'u plith i roi elfen allgymorth y rhaglen Dechrau'n Deg ar waith ar sail anghenion ac amgylchiadau lleol.

**Cynulleidfa**

Yn bennaf, bwriedir i'r cydgysylltwyr Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, a'u timau, ddefnyddio'r canllawiau a geir yn yr Atodiad hwn i'w helpu i gynllunio i roi'r gwasanaeth ar waith. Fodd bynnag, byddant hefyd o ddiddordeb i reolwyr partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf, Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, rheolwyr Canolfannau Plant Integredig, sefydliadau yn y trydydd sector, unigolion eraill ac unrhyw grŵp sy'n cynorthwyo teuluoedd.

## 1. Cyflwyniad

Er bod y rhaglen Dechrau’n Deg yn targedu ardaloedd penodol, mae’r awdurdodau lleol yn cael rhywfaint o gyllid ‘allgymorth’ fel rhan o’u grant Dechrau’n Deg i ddarparu rhai o elfennau’r rhaglen i blant ar draws yr awdurdod lleol yn ehangach. Ar ôl adolygu’r prosiect allgymorth peilot ac ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol o’r rhaglenni Dechrau’n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Chymunedau yn Gyntaf, cafodd y canllawiau hyn eu llunio i egluro sut i gyflawni’r gwaith allgymorth.

Cafodd y canllawiau hyn eu llunio gan ymgynghori ag ymarferwyr Dechrau’n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Chymunedau yn Gyntaf a staff Llywodraeth Cymru sy’n rheoli’r rhaglenni hyn.

## 2. Y brif egwyddor

Os nodir bod eu hangen arnynt ac os oes adnoddau ar gael, gall plant Cymru sydd o dan bedair oed gael mynediad at rai o elfennau’r rhaglen Dechrau’n Deg, neu bob un ohonynt, drwy gyfrwng cyllid allgymorth.

Mae’r gwaith allgymorth yn darparu gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd mewn ffordd integredig gan ddefnyddio strwythurau a systemau’r rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf, Cymunedau yn Gyntaf a Dechrau’n Deg.

## 3. Amcanion y gwaith allgymorth

Amcanion y gwaith allgymorth yw:

- Estyn gwasanaethau Dechrau’n Deg i deuluoedd y nodwyd bod eu hangen arnynt sy’n byw tu allan i ardaloedd Dechrau’n Deg;
- Darparu elfen o hyblygrwydd i’r awdurdodau lleol o ran y ffordd y maent yn rhoi’r rhaglen ar waith;
- Parhau i gynorthwyo plant a theuluoedd sy’n symud o ardaloedd Dechrau’n Deg neu blant a theuluoedd y mae angen parhau i ddarparu ar eu cyfer cyn bod modd iddynt dderbyn gwasanaethau neu ddarpariaethau eraill.

## 4. Cyllid

Bydd y gwaith allgymorth yn cael cyllid sy’n cyfateb i 2.5% o’r arian ychwanegol a ddarparwyd ar gyfer y rhaglen ers 2012[1]. Dylid ei ddefnyddio i ddarparu rhai o elfennau’r rhaglen Dechrau’n Deg i blant y nodwyd bod eu hangen arnynt ar draws yr awdurdod lleol yn ehangach (gweler Adran 6). Ni chaniateir defnyddio’r cyllid allgymorth i ariannu gwasanaethau statudol.

---

[1] Ers 2012, darparwyd arian ychwanegol i’r awdurdodau lleol i’w cynorthwyo i ehangu’r rhaglen Dechrau’n Deg. Roedd disgwyl i’r awdurdodau lleol ddefnyddio 2.5% o’r arian ychwanegol hwnnw ar gyfer gweithgareddau allgymorth. Pennwyd hyn yn y canllawiau gwreiddiol ynghylch gwaith allgymorth a ddarparwyd yng ‘Nghanllawiau Strategol Dechrau’n Deg 2012’.

## 5. Monitro a gwerthuso

Oherwydd y gwahanol ddulliau o gyflawni gwaith allgymorth, ni fydd Llywodraeth Cymru'n cofnodi canlyniadau plant sy'n cael ymyriadau drwy'r gwaith allgymorth ar wahân. Bydd Rheolwyr Cyfrifon Dechrau'n Deg yn monitro'r ffordd y mae'r gwaith allgymorth yn cael ei gyflawni a'r gwariant arno fel rhan o'r trefniadau monitro arferol[2].

Rydym yn argymell yn gryf bod y timau Dechrau'n Deg yn coladu data'n lleol i gofnodi sut y maent yn gwario'r cyllid allgymorth a'u bod yn coladu cyfres o astudiaethau achos i ddangos effaith y cyllid allgymorth.

Ni ddylid cynnwys plant sy'n cael gwasanaeth allgymorth yn ffigurau CAP yr awdurdod lleol.

## 6. Y broses

Dylai pob Cynllun Cyflenwi Dechrau'n Deg amlinellu sut y bydd y cyllid allgymorth yn cael ei ddyrannu a'i reoli ar sail un o'r tri opsiwn isod. Dylai'r Cynlluniau Cyflenwi nodi sut y bydd y timau Dechrau'n Deg yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n effeithiol â'r cydgysylltwyr Teuluoedd yn Gyntaf a rheolwyr y partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf i sicrhau bod y cyllid allgymorth ar gael i'r teuluoedd mwyaf difreintiedig ar draws yr awdurdod lleol. Dylai'r Cynlluniau Cyflenwi sicrhau bod Rheolwyr Cyfrifon Dechrau'n Deg yn fodlon bod y cyllid allgymorth yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol i ddiwallu anghenion plant mwyaf difreintiedig yr awdurdod lleol.

Gellir defnyddio'r cyllid allgymorth mewn un o dair ffordd:

1. *Plant teuluoedd sy'n symud o ardaloedd Dechrau'n Deg*

Gellir defnyddio'r cyllid allgymorth i sicrhau bod y gwasanaeth a'r cymorth angenrheidiol yn parhau i gael eu darparu i blant sy'n symud o ardaloedd Dechrau'n Deg, a'r rheini'n blant y nodir bod ganddynt anghenion canolig-uchel (ar sail paneli neu offerynnau asesu teuluoedd lleol).

Dylid cyfeirio'r plant hyn at broses Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf naill ai cyn iddynt symud o ardal Dechrau'n Deg neu cyn pen chwe wythnos ar ôl iddynt wneud hynny.

Dylai'r cydgysylltydd Dechrau'n Deg, neu gynrychiolydd a enwebir ganddo, gydweithio'n agos â'r cydgysylltydd Teuluoedd yn Gyntaf, neu gynrychiolydd a enwebir ganddo, i gadarnhau pa rai o wasanaethau Dechrau'n Deg fydd yn cael eu darparu i'r plentyn gan ddefnyddio cyllid Dechrau'n Deg. Rhaid ystyried hefyd anghenion y teulu cyfan ac unrhyw wasanaethau addas a

[2] Pennwyd Rheolwr Cyfrif ar gyfer pob awdurdod lleol. Mae'n cyfarfod â phob un o'i Gydgysylltwyr Dechrau'n Deg yn rheolaidd i drafod y camau a gymerwyd i roi'r rhaglen ar waith. Ers mis Hydref 2013, mae'r Rheolwyr Cyfrifon wedi cytuno ar Gynllun Gwella Ansawdd gyda phob un o'r cydgysylltwyr Dechrau'n Deg ym mhob awdurdod lleol. Defnyddir y Cynlluniau Gwella Ansawdd hyn i bennu meysydd sy'n peri pryder ac i amlinellu'r gweithgareddau sy'n ofynnol i wella'r perfformiad.

ddarperir drwy'r prosiectau a gomisiynir yn strategol gan Deuluoedd yn Gyntaf.

Mae'r cyllid allgymorth yn gyfyngedig ac felly dylid ystyried a oes modd comisiynu'r gwasanaethau drwy brosiectau strategol Teuluoedd yn Gyntaf, drwy brosiectau Cymunedau yn Gyntaf, neu drwy fentrau sefydliadau eraill yn y trydydd sector os nad oes cyllid Dechrau'n Deg ar gael.

Mae gan y cydgysylltydd Dechrau'n Deg, neu gynrychiolydd a enwebir ganddo, ddisgresiwn i benderfynu a ddylid neilltuo'r arian a'r adnoddau i ddarparu'r cymorth gofynnol.

Y tîm Teuluoedd yn Gyntaf fydd yn gyfrifol am y casgliad o wasanaethau a ddarperir i'r plentyn/teulu.

2. *Plant teuluoedd sy'n byw tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg*

Fel rhan o becyn cymorth wedi'i deilwra, gall cydgysylltwyr Teuluoedd yn Gyntaf ofyn am ddarpariaeth Dechrau'n Deg ar gyfer unrhyw blentyn yn yr awdurdod lleol sydd o dan bedair oed.

Rhaid gwneud cais am wasanaethau drwy Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd ac i'r cydgysylltydd Dechrau'n Deg, neu gynrychiolydd a enwebir ganddo. Mae gan y cydgysylltydd Dechrau'n Deg, neu gynrychiolydd a enwebir ganddo, ddisgresiwn i benderfynu a ddylid neilltuo'r arian a'r adnoddau angenrheidiol i ddarparu'r cymorth gofynnol.

Dylai'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg fod yn rhan o gasgliad o wasanaethau cymorth a ddarperir i'r teulu cyfan.

Y Tîm Teuluoedd yn Gyntaf fydd yn gyfrifol am y casgliad o wasanaethau a ddarperir i'r plentyn/teulu.

3. *Cymunedau buddiant*

Gall y timau Dechrau'n Deg ddefnyddio'u cyllid allgymorth i dargedu plant o gymunedau buddiant penodol yn eu hawdurdod lleol. Gall y rhain gynnwys llochesau i fenywod; cymunedau teithwyr; llochesau i bobl ddigartref; menywod Dechrau'n Deg sydd mewn carchar. Bydd timau Dechrau'n Deg yn rhydd i benderfynu pa grwpiau yn eu hawdurdod lleol fydd yn elwa fwyaf ar ba rai o elfennau Dechrau'n Deg. Rhaid i'r Cynlluniau Cyflenwi ddatgan pa 'Gymuned Fuddiant' y mae'r awdurdod lleol yn ei thargedu, a pha ganlyniadau y mae'n disgwyl eu cyflawni yn sgil y buddsoddiad.

## 7. Cydweithredu

Ym mhob gweithgaredd, ac yn enwedig o ran y gwaith allgymorth, dylai'r timau Dechrau'n Deg gydweithio â'i gilydd a chydweithio â'r rhaglenni a'r mentrau allweddol eraill ym maes Trechu Tlodi (sef Teuluoedd yn Gyntaf,

Cymunedau yn Gyntaf a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd) i sicrhau bod teuluoedd ar hyd a lled Cymru'n elwa ar yr holl adnoddau sydd ar gael ar draws y rhaglenni hyn.

## 8. Crynodeb

Dylai'r cyllid allgymorth sicrhau bod gan y timau Dechrau'n Deg hyblygrwydd i ddarparu rhai o elfennau'r rhaglen Dechrau'n Deg i'r teuluoedd y mae eu hangen arnynt fwyaf ar draws yr awdurdod lleol.